

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Aneurin Evans, un a fu'n ffyddlon i'r Arglwydd ac yn flaenor yng Nghapel Saron am bron i 60 mlynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Gwen Evans, Gwenda, Eleri, Nan a gweddill y teulu, wrth inni gofio gydag anwylded amdano. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Mr Gwyn Jones (Peniel) sydd wedi colli ei chwaer, Eirlys. Cofiw'n amdano ef a gweddill y teulu yn y brofedigaeth hon eto a ddaeth i'w rhan, a gweddiwn y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn gysur iddynt.
- Daeth ton o dristwch dros yr ardal hefyd ym marwolaeth sydyn Mr Emyr W. Evans, Prifathro Ysgol Rhydgaled. Wrth gofio a diolch am ei gymeriad hawddgar, a'i ymroddiad a'i gyfraniad arbennig i'r ysgol, cyflwynwn ei deulu, yr athrawon, y rhieni a'r plant a phawb arall sydd ynglŷn â bywyd yr ysgol, yn ein gweddiâu wrth iddynt ddygymod â'r golled fawr hon.
- Yr ydym yn parhau i gofio hefyd am y rhai sydd yn yr ysbyty – Mrs Myra Hughes (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd a Mrs Morfydd Roberts (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun - ac yn hyderu eu bod yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd. Cofiw'n hefyd am eraill o'n plith sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau a chyflwynwn hwythau yr un modd i ofal yr Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt a gwarchod dros eu hanwyliaid yr un modd.

## I ddo

- **Adnabod DAWN** - y sesiynau dilynol yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar Orffennaf 3ydd a'r 17eg.
- **Bore Coffi a stondinau** yn Eirianfa, Dinbych ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7fed rhwng 10.00 a 12.00. Trefnir gan aelodau Capel Peniel.
- **Cwrs Ieuenctid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg – 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 18fed – 24ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).

## Llais Bro Aled

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Dydd Sul, 24<sup>ain</sup> Mehefin 2012

Mae heddiw yn ddiwrnod i'r Fro gyfan i ddod ynghyd i gyd-adrodd o'r Gair a chanu mawl i'r Arglwydd. Diwrnod arbennig i-Grist! Gobeithio y medrwyd chithau ddod i'r oedfaon heddiw, bydd croeso mawr i chi.

Mae 'na ddiwedd o baratoi wedi bod a diolch i bawb sydd wedi bod yn brysur hefo'r plant a'r ieuenctid a'r oedolion. Clywais amryw yn dweud fod y plant ar y blaen o ran y dysgu! Dewch heb boeni – y nod yw canmol yr Arglwydd a mwynhau ei gwmni a dathlu ei drugaredd i rai fel ni!

Os ydych awydd paratoi cyn dod, ga'i awgrymu eich bod yn darllen Eiseia 43? Yma fe gewch addewidion mawr yr Arglwydd ac wrth ystyried beth sy'n cael ei addo, ni fyddwn yn medru peidio canmol Iesu!

Un neges fawr yn y rhan yma o'r Beibl ydi fod Duw wedi ein gwneud yn eiddo iddo – “*eiddof fi ydwyt*” (adn. 1) “*Oherwydd myfi, yr Arglwydd yw dy Dduw*” (adn. 3) ac yna: “*Sanct Israel yw dy Waredydd*” (adn. 3).

Cafodd amryw eu hachub o'r llifogydd yn ddiweddar. Bu'n rhaid achub rhai o weithwyr y gwasanaethau brys hyd yn oed. Mae'r syniad o gael ein hachub yn gyfarwydd iawn i'r plant. Mae Sam Tân yn arwr mawr, a'i waith o ydi achub y rhai sydd mewn tân - neu'n amlach na pheidio, achub Norman Preis o ryw drafferth neu'i gilydd! Pan fydd pawb arall yn methu fe fydd Sam yn siwr o lwyddo! Weithiau, fel y gwelsom yn hanes y llifogydd yn Nhal y Bont ger Aberystwyth mae angen rhywrai weithiau i fod yn achubydd i'r achubydd. Ar ein gorau, byddwn yn parhau i fod mewn angen am help!

Pan feddyliwn am ein cyflwr ni ein hunain, pwy sydd yn ddigon abl a chryf i'n helpu ni? Pwy sydd yn gallu gwneud y gwaith o'n gwaredu ni? Y gwir plaen ydi nad oes yna neb sydd yn ddigon galluog nac addas i'r gwaith yma, dim ond un. Pan fydd pawb a phob peth arall yn methu ein hachub na'n cysuro, y mae'r gair yma o Eiseia yn dod i'r meddwl – pwy sydd gennym ni fel Gwaredydd? Neb llai na Sanct Israel ei hun, Arglwydd y Lluedd, yr Arglwydd Iesu! A dyma'i addewid: “*Pan fyddi'n rhodio trwy'r tân, ni'th ddeifir, a thrwy'r fflamau, ni losgant di.*” (adn. 2)

Cyn dod heddiw, myfyriwch ar fawredd ein Gwaredwr a rhyfeddol nerth y gras a'r maddeuant sydd ganddo fo – a neb arall – i'w rhoi i ni. O ystyried hyn, yna medrwn ganu hefo'n gilydd nes bydd y nefoedd yn clywed:

*Yng Nghrist ei hun mae 'ngobaith i,  
Efyw 'ngoleuni, nerth a'm cân;  
Mewn stormydd llym, a sychder blin,  
F'amddiffyn ydyw yn y tân;*

*A'i Goncwest Efyw 'nghoncwest i,  
Rwy'n eiddo'i Grist, mae'n eiddo i mi,  
Nid oes gan angau golyn mwy,  
Fe'm prynwyd trwy ei werthfawr waed!*

Pam gwneud hyn i ni, Arglwydd? “*Am dy fod yn werthfawr yn fy ngolwg, yn ogoneddus, a minnau'n dy garu.*” (Eiseia 43:4)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma

# i-Grist

am 10:30

Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

## Criw Coleg y Bala

Bydd y plant cynradd a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar yn ystod y gwasanaeth (**pob eglwys hefo'i gilydd!**). Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. (*Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.*)

**Parcio:** Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

## Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa i holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan gyda rhai o ieuencid yr Ofalaeth yn cymryd rhan, gair o brofiad gan Arawn Glyn (Gweithiwr Plant a Ieuencid yn Sir y Fflint), a digon o ganu emynau hen a newydd.

- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274) neu Hafwen (813445), os gwelwch yn dda.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin a Rhodri** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Iau • Cyfarfod i aelodau'r **Grŵp Eiddo** yn Festri Capel Cefn Meiriadog am 8.00
- Iau • **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Ebeneser, Trelawnyd am 7.00 gyda'r Parch. Ddr. Hugh John Hughes yn annerch ar "Ddylanwad cynnar yr Ysgol Sul yng Nghymru".
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Saron a Pheniel

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd cinio cynnil yn dilyn yr oedfa yn Festri Capel Peniel gyda'r elw tuag at Apêl Guatemala. Enwau i Helen Parry (550276), os gwelwch yn dda.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau